Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

WF 02
Ymchwiliad i gynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol
Inquiry into the sustainability of the health and social care workforce
Ymateb gan: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Response from: Older People's Commissioner for Wales

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Dai Lloyd AM
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Caerdydd
CF99 1NA

26 Awst 2016

Annwyl Gadeirydd,

**Ymchwiliad i gynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol**

1. Mae gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi ei hyfforddi'n briodol ac yn cael ei werthfawrogi'n hanfodol i sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel yng Nghymru. Felly rwy'n croesawu'r cyfle hwn i gynnig sylwadau ynglŷn â chynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.
2. Rwy'n croesawu'r meysydd ffocws a nodwyd gan y Pwyllgor fel rhan o'r ymchwiliad hwn, meysydd y mae llawer o fy ngwaith hyd yma wedi rhoi sylw iddynt. Mae fy nhystiolaeth isod yn crynhoi nifer o'r pryderon yr wyf wedi eu codi drwy fy ngwaith parhaus:

**Adolygiad o Gartrefi Gofal:**[1]

3. Mae staff gofal yn chwarae rhan hanfodol o safbwynt p'un ai a yw pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn mwynhau bywyd o ansawdd da. Yn fy Adolygiad tynnwyd sylw at y pwysau presennol sydd ar y gweithlu gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

---

[1] Lle i'w Alw'n Gartref?
http://www.olderpeoplewales.com/wl/Reviews/Residential_Care_Review/ReviewReport.aspx

- Diffyg capasiti staff, a hynny'n creu dull seiliedig ar dasgau tuag at ofal;
- Diffyg hyfforddiant, yn cynnwys hyfforddiant addas i staff sy'n gweithio'n agos gyda phobl sy'n byw gyda dementia a/neu sydd wedi colli eu golwg neu eu clyw;
- Arweinyddiaeth a chefnogaeth annigonol ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal, sy'n hanfodol er mwyn creu'r diwylliant priodol o fewn cartref gofal;
- Bod gweithlu ar gael (yn cynnwys prinder staff nyrsio)
- Telerau ac amodau staff

4. Roedd Fy Adolygiad yn cynnwys nifer o Ofynion i'w Gweithredu mewn perthynas â gweithlu cartrefi gofal. Gellir eu gweld yma. Ar hyn o bryd rwy'n mapio'r gwaith sydd ar y gweill i sicrhau'r canlyniadau y mae pobl hŷn eisiau eu gweld ac rwy'n bwriadu rhannu'r gwaith hwn gyda'r Pwyllgor yn fuan.

**Gofal Cymdeithasol Cymru:**

5. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r angen i fesur i ba raddau y mae gan Gymru weithlu dra chymwys i ddiwallu anghenion iechyd a gofal yn y dyfodol, a ddatblygir drwy nifer o ffyrdd.
6. Yn y dyfodol bydd y gweithlu gofal yn y cartref a gofal preswyl oedolion yn cael ei reoleiddio drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) gan sicrhau hyfforddiant gorfodol i'r gweithlu gofal cymdeithasol. Gan ddefnyddio'r canfyddiadau yn fy Adolygiad o Gatrtefi gofal, nodais yn ddiweddar fy nisgwyliadau ar gyfer sicrhau gweithlu gofal cartref, wedi ei hyfforddi'n briodol mewn ymateb i'r ymgynghoriad diweddar ar y blaenoriaethau ar gyfer deddf newydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Gellir eu gweld yma.

**Gofal yn y Cartref:**

7. Roedd recriwtio a chadw staff iechyd a gofal cymdeithasol drwy Gymru, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn, yn faes y tynnwyd sylw ato yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal. Yn fwy diweddar, ymatebais i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar wella'r broses o recriwtio a

chadw gweithwyr gofal yn y cartref yng Nghymru, a oedd yn amlinellu'r angen i'r gweithlu gael ei ystyried fel proffesiwn o bwysigrwydd strategol allweddol. Gellir gweld fy ymateb i'r ymgynghoriad hwn yma.

**Gofal Sylfaenol:**

8. Mae cynllun gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru a GIG Cymru[1] yn dangos yn glir symudiad tuag at ddarparu mwy o ofal a chefnogaeth o fewn y gymuned ac yn agos at gartrefi pobl, lle y bo hynny'n bosibl.
9. Mae'n hanfodol bod staff iechyd sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ar gael i wireddu'r bwriad hwn. Er enghraifft, tra bod ymrwymiadau i lefelau staff nyrsio mewn wardiau ysbytai, a nodir yn Neddf Lefelau Staff Nyrsio 2016, i'w croesawu, rhaid cynllunio a hyfforddi'r gweithlu'n ddigonol er mwyn sicrhau na fydd yr ymdrech i gyflawni hyn yn amharu ar lefelau staff nyrsio o fewn gofal sylfaenol a'r gymuned.
10. Ar hyn o bryd rwy'n ymgymryd â gwaith i ddeall profiadau a mynediad pobl hŷn at wasanaethau meddygon teulu, gan gasglu tystiolaeth drwy sesiynau trafodaethau grŵp a holiadur. Byddaf yn cyhoeddi fy nghanfyddiadau yn gynnar yn 2017.
11. Nid wyf am ragfarnu canfyddiadau a chasgliadau'r gwaith hwn, ond mae'r dystiolaeth yr wyf eisoes wedi ei chasglu'n dangos bod pobl hŷn yn ymwybodol o heriau presennol y gweithlu ym maes gofal sylfaenol ac o'r anhawster i recriwtio meddygon teulu'n benodol, ac yn gallu cael trafferth ar hyn o bryd i wneud apwyntiad o fewn amserlen resymol.
12. Gallaf eich briffio ymhellach ynglŷn â'r gwaith hwn os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

---

[1] Llywodraeth Cymru a GIG Cymru, Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2015

**Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru):**

13. Roedd fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn cynnwys tystiolaeth sylweddol ynglŷn â’r rôl allweddol y mae GIG Cymru’n a’i nyrsys yn ei chwarae o safbwynt ansawdd gofal a diogelwch pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio. Yn ogystal â chartrefi gofal nyrsio, mae nifer fawr o nyrsys sy’n gweithio drwy Gymru yn gweithio yn y gymuned.

14. Gyda’r polisi a gynlluniwyd yn symud oddi wrth driniaeth ac aros am hir mewn wardiau aciwt a thuag at ofal a thriniaeth yn y gymuned, a hefyd yr angen i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well, mae angen cynllunio gweithlu a sicrhau lefelau staff nyrsio diogel yn y lleoliadau hynny er mwyn sicrhau bod pobl hŷn sydd efallai’n fregus a diamddiffyn yn derbyn gofal diogel a phriodol ym mhob sefyllfa. Gellir gweld fy ngwaith craffu cyn deddfu yma:

15. Byddaf yn gwneud gwaith dilynol i fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn ystod y flwyddyn nesaf ac edrychaf ymlaen at weithio gyda’r Pwyllgor a’i aelodau yn ein rolau craffu.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Cofion gorau,

Sarah Rochira

**Sarah Rochira**

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**